# YSBYTY CYMUNEDOL BRO DDYFI

Cylchlythyr Ailddatblygu




Eluned Morgan, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Yn Agor Y Cyfleuster Yn Swyddogol

## Diweddariad

Rydym yn falch iawn o rannu bod Ysbyty Cymuned Bro Ddyfi bellach ar agor ac yn weithredol. Agorodd y cyfleuster i gleifion ddechrau mis Mai 2023.

Agorodd Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr adeilad yn swyddogol ddydd Iau 25ain Mai.

Ddwy flynedd ers dechrau'r gwaith adeiladu ar y safle, mae Hyb Cymunedol newydd Bro Ddyfi yn weithredol. Bydd y buddsoddiad gwerth £15M yn golygu bod gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol yn cael ei gynnwys yn safle'r ysbyty gan ddarparu cyfleuster iechyd a lles integredig i'r gymuned leol.

Dywedodd Eluned Morgan, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: "Roedd hi'n bleser agor ailddatblygiad Ysbyty Cymunedol Machynlleth Bro Ddyfi yn swyddogol a gweld yn uniongyrchol y gwahaniaeth y bydd yn ei wneud i'r gymuned leol.

"Mae hon yn enghraifft wych o sut mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ail-lunio'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd a lles cymunedol yn cael eu darparu er mwyn sicrhau gwell mynediad i feddygon, nyrsys, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn nes at adref."

*"Rwyf wedi bod yn rhan o'r prosiect hwn o ddatblygu'r achos busnes ac rwy'n teimlo'n falch iawn ac yn freintiedig iawn fy mod wedi gallu ei weld hyd at y diwedd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i staff a chleifion am eu cefnogaeth a'u dealltwriaeth drwy gydol y prosiect sydd wedi bod yn heriol ar adegau. Mae'r cyfleusterau newydd yn wych a byddant yn cynnig buddion sylweddol i'r gymuned leol."*

***Louise Morris***
*Pennaeth Cyfalaf a Phrosiect Ail-ddatblygu*
*Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi*



Yn y llun uchod, chwith: Louise Morris, Pennaeth Cyfalaf yn dangos Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y cyfleuster cyn y buddsoddiad.



Yn y llun uchod ar y dde: Eluned Morgan, Dr Sara Bradbury-Willis - Partner Meddyg Teulu yn Iechyd Cwm Ddyfi a Louise Morris.

# LLUNIAU CWBLHAU

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government




Man Aros Iechyd Meddwl Oedolion




Prif Fynedfa Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi




Arwyddion a Phrif Fynedfa Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi



Gardd Synhwyraidd



Man eistedd yn y Caffi Croeso,




Caffi Croeso – Y Cyfleuster Caffi newydd